# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar

# Blant sy'n Derbyn Gofal

# Dydd Mawrth 10 Gorffennaf 2018

# 12.30–13.30

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

David Melding AC – Cadeirydd (DM)

**Yn bresennol:**

Anna Collins – Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol – Pen-y-bont ar Ogwr (AC)

Deborah Jones – Prif Weithredwr, Voices From Care Cymru (DJ)

Sean O'Neil – Plant yng Nghymru (SON)

Sharon Lovell – NYAS Cymru

Y Parchedig Philip Manghan – Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

Rachel Thomas – Ymgynghorydd Polisi, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Lucy Treby – Rheolwr Gwella a Datblygu, Gofal Cymdeithasol Cymru

Heidi Keiser – NSPCC

Menna Thomas – Barnardo's Cymru

Llinos Madeley – Clerc, Gwasanaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth y Cynulliad

Paula Foley – Gweithiwr Achos, Jenny Rathbone AC

Ashley Lister – Cynghorydd dros ward Grangetown

Luke Young – Pennaeth Polisi a Chyfathrebu ar gyfer Jeremy Miles AC

Siân Thomas – Arweinydd y Tîm Ymchwil, Staff Comisiwn y Cynulliad

Tim Crahart – Rheolwr Cymorth Busnes, Voices From Care Cymru – (yn cymryd y cofnodion) (TC)

**Cafwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:**

Lee Waters AC

Bethan T James – Cyngor Sir Caerfyrddin (BTJ)

Dan Willis – Stepping Stones

Maria Boffey – Pennaeth Gweithrediadau, Rhwydwaith Maethu Cymru

Charlotte Wooders – Rheolwr Rhaglen, Rhwydwaith Maethu Cymru

Catriona Williams – Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru

1. **Croeso a chyflwyniad gan y Cadeirydd**

Dechreuodd DM y cyfarfod a chroesawodd y rhai oedd yn bresennol. Yna cafwyd ymddiheuriadau.

2. **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Cyflwynodd DM yr Adroddiad Blynyddol i'r grŵp, gan esbonio ei fod yn dangos pwy oedd wedi mynychu cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr hyn a drafodwyd, ac unrhyw wariant. Pwysleisiodd fod yr unig wariant yn gysylltiedig â'r gwasanaethau ysgrifenyddiaeth a ddarparwyd gan Voices from Care Cymru. Nid oedd rhagor o gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad.

Gan nad oedd Aelodau eraill y Cynulliad yn bresennol i enwebu DM fel Cadeirydd, dywedodd y byddai'n tybio bod pawb yn hapus iddo barhau yn y rôl honno ac y byddai'n siarad ag Aelodau eraill y Cynulliad sy'n mynychu cyfarfodydd y grŵp a gofyn iddynt ei enwebu yn ôl-weithredol.

3. **Cofnodion**

Gwiriwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2017. Cadarnhaodd DJ eu bod yn gywir.

4. **Materion yn codi**

Codwyd materion wrth fynd drwy'r agenda.

5. **Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

Rhoddodd DM y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp o ran cynnydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae swyddogion Grŵp Cynghori'r Gweinidog, gan gynnwys DM, wedi rhoi tystiolaeth. Mae'r pwyllgor wedi bod yn edrych ar sut y mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn datblygu gwasanaethau, ac yn ystyried agweddau fel a oes gormod o rym gyda'r sector preifat.

Rhoddodd Lynne Neagle AC dystiolaeth yn breifat ynglŷn â gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE), megis yr adroddiad 'Cadernid Meddwl'.

Rhoddodd Sally Holland (Comisiynydd Plant Cymru) dystiolaeth ynglŷn â gwneud elw yn y sector preifat a chymorth wedi'i dargedu.

Bydd adroddiad interim ar ddiwedd pob cyfnod.

Dywedodd DM y rhoddir yr awdurdod uchaf i adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus oherwydd natur ddwys yr ymchwiliad.

## 6. Grŵp Cynghori'r Gweinidog

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y grŵp ar 16 Mawrth ac mae bellach yn y cyfnod canol. Mae adroddiadau yn dod i law a chânt eu cyhoeddi ar y wefan. Trafodwyd 'Cadernid Meddwl', yn ogystal â chanlyniadau wedi'u targedu ar gyfer cyrhaeddiad addysgol.

Dywedodd DM fod y gwaith wedi datblygu'n dda o ran diweddaru canllawiau ar rianta corfforaethol.

Y dull gweithredu a ddefnyddir yn yr Alban yr ystyrir mai'r Prif Weinidog yw'r Tad-cu Corfforaethol. Gan fod model cryf yno, mae DM yn awyddus i ymweld â'r Alban i weld y dull gweithredu o ran rhianta corfforaethol. Mae proses yr Alban yn arwain at ddeddfwriaeth, tra bod canllawiau yn fwy tebygol yng Nghymru. Bydd DJ a Chris Dunn o VFCC yn mynd a byddant yn gwahodd Bethan T James o Sir Gaerfyrddin*.

Aeth DM ymlaen i ddweud y bydd y grŵp yn dechrau cyflwyno adroddiadau blynyddol o ryw fath*.

Dywedodd SL ei bod yn dda dathlu llwyddiannau Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Bydd cynhadledd gyda'r Gweinidog yn cael ei chynllunio.

## 7. Adroddiad 'Cadernid Meddwl'

Mae adroddiad y Cynulliad Cenedlaethol, 'Cadernid Meddwl', bellach wedi'i gyhoeddi, ac mae rhan ohono'n canolbwyntio ar blant sy'n derbyn gofal.

Roedd yr adroddiad yn arbennig o frawychus gan ei fod yn nodi'r canlynol am y gwasanaethau*:

'maent "ar y dibyn" ac "mewn argyfwng", a bod lle i ddadlau bod y trefniadau cydweithio rhwng y GIG a llywodraeth leol ar wasanaethau therapiwtig yn mynd am yn ôl.'

Mae crynodeb o'r dystiolaeth ynghylch plant sy'n derbyn gofal yn yr adroddiad.

Noda'r adroddiad nad yw anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hasesu.

**Cam Gweithredu** – Aelodau’r grŵp i ddarllen argymhelliad 23 yn adroddiad 'Cadernid Meddwl', gan ei fod yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal

Dywedodd SL fod NYAS wedi rhoi tystiolaeth a dywedodd fod cynnydd sylweddol wedi bod o ran y galw am eiriolaeth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Dywedodd DM fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn rhai o argymhellion yr adroddiad ‘mewn egwyddor’. Yna cafwyd peth trafodaeth ynglŷn â beth oedd hyn yn ei olygu mewn gwirionedd.

Bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn canolbwyntio ar argymhellion yr adroddiad. Nid yw Lynne Neagle yn fodlon ar ymateb Llywodraeth Cymru.

Dywedodd DM fod tystiolaeth yn yr adroddiad nad oes digon o ymyrraeth ar yr ochr gofal sylfaenol ac mae gormod o waith gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS) o ganlyniad i hynny.

Gofynnodd AC a oes cynrychiolaeth o faes iechyd yng Ngrŵp Cynghori'r Gweinidog. Atebodd DM fod y gynrychiolaeth wedi'i chryfhau dros y blynyddoedd diwethaf. Yn flaenorol, roedd Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn rhoi llawer iawn o sylw i wasanaethau plant. Mae’r cyfranogiad o ran gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid hefyd wedi cynyddu.

## 8. Unrhyw fater arall

Hysbysodd DJ y grŵp am ymchwil y mae CASCADE wedi ei chynnal ar rieni ifanc sydd wedi bod mewn gofal ac y mae eu plant bellach mewn gofal. Soniodd fod NYAS wedi cynnal cynhadledd yn edrych ar y materion.

Cafwyd trafodaeth wedyn a ddylai pob plentyn sy'n derbyn gofal gael asesiad llesiant yn hytrach nag asesiad iechyd meddwl, er mwyn osgoi tynnu gwasanaethau i mewn lle nad ydynt yn angenrheidiol. Cydnabuwyd hefyd fod stigma ynglŷn â chael diagnosis iechyd meddwl, ond mai sicrhau llesiant y dylai'r nod fod. Dywedodd DM y dylent edrych ar wasanaethau ataliol yn hytrach na gwasanaethau acíwt.

Dywedodd DJ fod trawma sy'n gysylltiedig â cham-drin neu dderbyn gofal yn cael ei nodi fel mater iechyd meddwl, er ei bod yn broses naturiol. Dylid mabwysiadu dull gweithredu mwy cyfannol wrth fynd i'r afael â materion sy’n gysylltiedig â thrawma.

## 9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

13 Tachwedd 2018 am 12.30 yn Ystafell Bwyllgora 5, Llawr Gwaelod, Tŷ Hywel.